# STEELTOWN STORYBOOK




# CHILDREN'S CHAPTER

FUNDED BY AHRC IMPACT
ACCELERATION AWARD

SWANSEA UNIVERSITY

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Sefydlwyd The Steeltown Storybook: Children's Chapter i sicrhau bod pobl ifanc Port Talbot yn fwy na dim ond tystion i drawsnewidiad diwydiannol y dref, a'u bod hefyd yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o greu ei naratif i'r dyfodol. Drwy ymgysylltu â 300 o blant 7–11 oed o ysgolion cynradd lleol, amcan y prosiect oedd pontio'r bwlch rhwng hunaniaeth hanesyddol y dref a phrofiadau byw ei phobl ifanc. Roedd y prosiect, a ariannwyd gan Gyfrif Cyflymu Effaith Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC), yn darparu llwyfan i blant fynegi sut maen nhw'n llywio eu cymunedau, yn ystyried eu gorffennol ac yn dychmygu dyfodol iachach.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod gan blant ymdeimlad dwfn o berthyn sydd wedi'i wreiddio mewn cysylltiadau cymdeithasol sy'n pontio'r cenedlaethau. Ar y llaw arall, mae hyn yn aml yn tynnu'n groes i ganfyddiad o ddiffyg diogelwch a phrinder gofod wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer plant. Ar ben hynny, er bod y gwaith dur yn parhau i fod yn dirnod creiddiol, mae pobl ifanc heddiw yn canolbwyntio ar drawsnewid y dref yn lle glanach. Maen nhw'n cydnabod treftadaeth y diwydiant dur ond yn galw am fwy o gyfleoedd amrywiol a chyfleoedd cyfartal i bob rhywedd.

Mae'r gwaith hwn yn hanfodol oherwydd ei fod yn darparu'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer treftadaeth, addysg a chreu lleoedd i geisio gwireddu a gweddu i anghenion y genhedlaeth nesaf. O ran ysgolion, mae'r mewnwelediadau hyn yn helpu i gydweddu'r cwricwlwm â chynefin lleol plentyn, ac o ran awdurdodau lleol, mae'n cynnig glasbrint ar gyfer adfywio sy'n rhoi'r plentyn yn gyntaf. Mae'n sicrhau nad yw newidiadau sylweddol, megis datgomisiynu'r traddodiad o gynhyrchu dur neu greu celf gyhoeddus newydd fel murlun tanffordd yr M4, yn bethau sy'n cael eu gwneud i'r gymuned yn unig, ond eu bod yn hytrach yn cael eu llunio gan ddychymyg ac anghenion y rhai sy'n dysgu, chwarae, byw a gweithio yn y dref.

**300**

cymerodd pobl ifanc ran ledled Port Talbot.

**5**

roedd ysgolion cynradd lleol yn rhan uniongyrchol.

**3**

cynhyrchwyd murluniau sydd ar hyn o bryd yn eistedd o dan yr M4.


Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod ysgolion ym Mhort Talbot yn fwy na mannau dysgu yn unig; maen nhw'n angorau hanfodol ar gyfer hunaniaeth a diogelwch. O ran addysgwyr, mae'r prosiect yn tynnu sylw at bedwar maes gweithredu allweddol.

Mae cyfle pwysig ar gyfer dysgu sy'n digwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gall ysgolion ddefnyddio adnoddau'r dref (y traeth, y mynydd a hyd yn oed tanffordd yr M4) fel ffordd o addysgu treftadaeth, gwersi amgylcheddol a hanes.



# CYFLWYNIAD

Rhwng 2023 a 2025, cwblhaodd Swyddfa Ymchwil Heriau Lleol Prifysgol Abertawe ymarfer gwrando ar draws de a gorllewin Cymru. Pwrpas yr ymarfer hwn oedd deall yr heriau a'r cyfleoedd a oedd yn wynebu cymunedau lleol. Yn ystod y cyfnod hwn, cyhoeddodd TATA y byddai'n datgomisiynu prosesau cynhyrchu dur traddodiadol ar eu safle ym Mhort Talbot ac yn canolbwyntio ar dechnolegau gwyrddach – gyda dad-ddiwydiannu a sgiliau yn hawlio'r flaenoriaeth yn y sgwrs am 'heriau lleol' yn sgil hynny. Mewn tref lle'r oedd pawb yn gweithio yn y gwaith dur mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn ystod y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd, roedd hyn yn fwy na dim ond newid economaidd; roedd yn creu posibilrwydd y byddai hunaniaeth y gymuned yn cael ei herydu.




Roedd yn amlwg bod lleisiau plant a phobl ifanc ar goll o'r sgwrs hon, er gwaetha'r ffaith fod penderfyniadau arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol ar eu dyfodol. Dyma ddaeth â thîm y prosiect at ei gilydd. Roedd ymchwil hanes llafar Emily Adams (Swyddfa Ymchwil Heriau Lleol) gyda phobl a adawodd yr ysgol yng Nghastell-nedd Port Talbot rhwng 1945 a 1979 yn tynnu sylw at hanes o gyfyngu ar ddyheadau pan nad oedd breuddwydion plant yn cael eu clywed. Er mwyn torri'r cylch hwn o hanes "yn cael ei gyflawni ar ran y dref" yn hytrach na "chyda'r dref", aethom ati i gyfuno ymchwil treftadaeth leol ag arbenigedd Dr Michaela James (Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe) ym maes iechyd plant a chyd-gynhyrchu er mwyn cynnig llwyfan i syniadau dros 300 o blant lleol am orffennol, presennol a dyfodol Port Talbot.


Mae lleisiau plant mewn cofnodion hanesyddol yn hynod brin. Rhoddodd y prosiect hwn gyfle i blant nid yn unig gynnig sylwadau am eu treftadaeth leol, ond hefyd i greu ffynonellau ar gyfer y bobl hynny a fydd yn ymchwilio i dreftadaeth Port Talbot yn y dyfodol – gan gyfrannu at wrthdroi naratifau 'oedolion yn unig' traddodiadol. Mae'r prosiect hwn yn eu grymuso i greu eu harchif eu hunain ar gyfer y dyfodol, gan ddarparu naratif arall ar wahân i naratifau oedolion yn unig traddodiadol ac adennill y mannau o dan yr M4 sydd wedi rhannu eu cymuned ers cymaint o amser.

Nod The Steeltown Storybook: Children's Chapter oedd:

- Grymuso plant ym Mhort Talbot fel cyd-ddylunwyr gweithredol drwy ddarparu llwyfannau iddyn nhw rannu eu profiadau, eu hunaniaeth a'u dyheadau wrth i Bort Talbot wynebu trawsnewid.
- Cipio barn y to ifanc ar orffennol, presennol a dyfodol y dref, gan greu archif ddigidol newydd i herio hanes o naratifau oedolion yn unig traddodiadol.
- Llywio'r gwaith o gyd-ddylunio murlun cyhoeddus pwysig ac adfywio mannau o dan yr M4 nad oedden nhw'n cael eu defnyddio i'r eithaf, gan droi symbol o raniad cymunedol yn ofod sy'n cysylltu.
- Ymgorffori lleisiau plant mewn prosesau gwneud penderfyniadau cymunedol ffurfiol, gan sicrhau eu bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi gan awdurdodau lleol a rhwydweithiau treftadaeth.
- Meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a balchder wrth i hunaniaeth ddiwylliannol Port Talbot esblygu.

Rydyn ni wedi ysgrifennu'r adroddiad hwn i rannu'r effaith, ac mae ar gyfer unrhyw un sy'n malio am Bort Talbot ac sydd eisiau gweld y dref yn ffynnu. Os ydych chi'n ymwneud â gwneud penderfyniadau am ddyfodol ein tref, dyma gyfle i chi weld y cynlluniau hynny drwy lygaid y plant a fydd yn byw gyda'u canlyniadau. Rydyn ni hefyd eisiau creu pecyn cymorth i'w ddefnyddio'n helaeth i helpu i ailadrodd y prosiect mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru a thu hwnt.

Os ydych chi'n chwilio am ffyrdd creadigol o ddod â hanes lleol yn fyw yn yr ystafell ddosbarth, boed hynny ynghlwm wrth drafnidiaeth, adeiladau newydd neu adnewyddu mannau o dan yr M4, bydd y mewnwelediadau hyn yn dangos beth yn union sydd ei angen ar berchnogion y dref yn y dyfodol. Rydyn ni wedi casglu syniadau mawr a phryderon plant 7–11 oed. Defnyddiwch yr adroddiad hwn i helpu i ategu eich ceisiadau cyllid eich hun neu i lunio gweithgareddau o gwmpas gofynion gwirioneddol plant lleol.



# DULLIAU

Defnyddiodd The Steeltown Storybook: Children's Chapter fframwaith creadigol a chyfranogol i sicrhau bod pobl ifanc yn gyd-ymchwilwyr gweithgar wrth gofnodi trawsnewidiad diwydiannol Port Talbot. Ymgysylltodd y prosiect â 300 o blant (7–11 oed) o bum ysgol gynradd leol ym Mhort Talbot. Er mwyn sicrhau ystod eang o safbwyntiau, rhannodd y tîm i weithio ar draws Blynyddoedd 4, 5 a 6.

Mae'r tîm ymchwil (gan gynnwys cynorthwyydd ymchwil pwrpasol) yn casglu a dadansoddi data o grwpiau ffocws, adolygiadau ac allbynnau creadigol. Roedd hyn yn cynnwys nodi themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro o ran sut y mae plant yn gweld hunaniaeth tref y dur a thanffordd yr M4.

Ategwyd y prosiect gan egwyddorion cyd-gynhyrchu INVOLVE, gan  ganolbwyntio ar bŵer cyffredin a dwyochredd. Yn hytrach nag oedolion yn dehongli'r data ar wahân, mae cysyniad y murlun a'r portffolio digidol a gafodd eu cyd-greu gan y plant yn gweithredu fel y brif dystiolaeth ar gyfer argymhellion adfywio yn y dyfodol.

Cyflwynwyd y prosiect drwy gyfres o weithdai creadigol wedi'u cymell gan ddata:

- Gweithdai a Sesiynau Creadigol: Mae'r tîm yn cynnal sesiynau taflu syniadau rhagarweiniol i nodi meddyliau a blaenoriaethau cychwynnol plant ar gyfer eu cymuned.

- PhotoVoice: Mae cyfranogwyr yn defnyddio ffotograffiaeth i gofnodi delweddau a straeon o'u hardal leol. Mae'r dull hwn yn eu helpu i gyfleu profiadau byw cymhleth mewn ffordd hygyrch.

- Grwpiau Trafod ac Adrodd Straeon: Mae grwpiau ffocws yn cael eu defnyddio i gasglu safbwyntiau cyfoes ar dreftadaeth ddiwydiannol a hanes cymdeithasol y dref, gan adeiladu ar themâu hanes llafar presennol.

- Podledu ac Adrodd Straeon Digidol: O dan arweiniad storïwr digidol lleol, mae plant yn cael eu hyfforddi i greu podlediadau a chynnwys digidol sy'n cofnodi eu gweledigaeth ar gyfer y dref.



# CANFYDDIADAU



Mae'r canfyddiadau sy'n cael eu cyflwyno yn yr adran hon yn adlewyrchiad uniongyrchol o syniadau, pryderon a breuddwydion cyffredin dros 300 o blant ar draws Port Talbot. Drwy gyfuno mynegiant creadigol â mewnwelediadau sy'n cael eu cymell gan ddata o blatfformau HAPPEN a RPlace, rydyn ni wedi symud y tu hwnt i ystadegau traddodiadol i ddatgelu realiti byw a thyfu i fyny mewn tref sy'n wynebu newid diwydiannol enfawr. Mae'r hyn sy'n dilyn yn fwy na dim ond data ymchwil; mae'n naratif cyfunol o sut mae'r genhedlaeth nesaf yn ystyried eu treftadaeth, yn llywio eu hamgylchedd presennol – yn benodol y mannau hynny fel tanffordd yr M4 sy'n rhannu'r gymuned, ac yn rhagweld dyfodol gwyrddach, mwy cysylltiedig i'w cymuned.

# Y GORFFENNOL: ARGRAFFIADAU'R PLANT O SUT LE OEDD PORT TALBOT A'U CYMARIAETHAU Â HEDDIW.

**Dur**

Yn hanesyddol, mae Port Talbot wedi cael ei diffinio fel tref y dur. Roedd yn amhosibl gwahanu twf y dref a thwf y diwydiant dur yn ystod y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd, gan greu cysylltiad agos â hunaniaeth ac incwm i'r genhedlaeth hŷn. Mae ymatebion y plant yn dangos bod eu perthynas nhw â'r gwaith dur yn fwy amrywiol. Mae'n cael ei weld naill ai'n eithaf niwtral fel rhan o dirwedd a hunaniaeth y dref, neu fel dylanwad afiach sy'n llygru'r ardal. Mae rhai yn gweld y gwaith dur fel gweithle cyfyngol, ansicr a budr gydag oriau gwaith hir, lle gallech gael eich brifo neu eich llosgi neu golli eich swydd. Nododd eraill fod eu perthnasau hŷn yn gweithio yn y gwaith dur a bod cyflogau da a swyddi diogel i'r dynion a oedd yn gweithio yno – gan adleisio'r teimlad bod pawb yn ymwneud â'r diwydiant dur mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

I'r plant, mae'r gwaith dur yn dirnod pwysig sy'n golygu eu bod nhw gartref. O'u safbwynt nhw, mae dur yn sicr yn rhan o hunaniaeth y dref: maen nhw'n ymwybodol o bresenoldeb diwydiant ac mae ganddyn nhw gwestiynau a syniadau am ei ddyfodol. Ar y cyfan, fodd bynnag, dydyn nhw ddim yn ystyried bod y gwaith dur yn ddylanwad cadarnhaol ar eu bywydau ac maen nhw'n rhoi'r argraff eu bod nhw'n awyddus am newid i ddyfodol economaidd y dref. Dim ond llond llaw o'r bobl ifanc a ddywedodd y bydden nhw'n ystyried gyrfa yn y diwydiant dur; mae eu dyheadau yn fwy sylweddol ac yn fwy creadigol nag y bu.

## Chwarae

Mae plant yn teimlo bod mwy o ryddid yn y gorffennol i fwynhau chwarae awyr agored ym myd natur, yn enwedig ar y stryd, y traeth a'r mynydd. Roedden nhw'n teimlo bod llai o gyfleoedd yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd i grwydro neu ymweld â llefydd ymhellach i ffwrdd; nododd un bod y diffyg cyfleoedd i deithio yn gwneud pobl yn drist. Yma, rydyn ni'n cael cipolwg ar ddiddordeb y plant mewn bod allan yn yr awyr agored, gweld gwahanol rannau o'r byd a chael profiad uniongyrchol o'r diwylliannau maen nhw wedi'u dysgu amdanyn nhw yn yr ysgol.

## Rhywedd

I'r plant, roedd anghydraddoldeb mewn rolau rhywedd yn un o nodweddion Port Talbot yn y gorffennol. Mae yna deimlad bod opsiynau merched yn gyfyngedig yn y gorffennol:

**"Girls was always left out to do everything around the house"**
**"Girls had less respect [than] Boy's'."**

Fodd bynnag, mae llawer ohonyn nhw bellach yn gweld y presennol fel oes lle mae mwy o gydraddoldeb ar gyfer pob rhywedd.

Mae plant Port Talbot yn cydnabod gwaddol tref y dur, ond dydyn nhw ddim bellach wedi'u rhwymo gan ei chyfyngiadau traddodiadol. Er bod y genhedlaeth hŷn yn cofio cyfnod o sefydlogrwydd diwydiannol, mae ieuenctid heddiw yn gweld darlun mwy cymhleth; un lle mae iechyd amgylcheddol, cydraddoldeb rhywedd a'r rhyddid i grwydro a chwilio yr un mor bwysig â sicrwydd economaidd. Maen nhw'n gofyn am dref sy'n parchu ei threftadaeth ond tref hefyd nad yw'n cael ei chyfyngu ganddi.

Mae angen gwneud mwy na dim ond ail-greu Port Talbot; mae angen i ni ail-greu fersiwn o Bort Talbot sy'n bosibl yn nhyb ein plant.



# Y PRESENNOL: BETH MAE PLANT YN EI WNEUD A'I FWYNHAU

**Crwydro ac anturio**

Mae plant ym Mhort Talbot wrth eu bodd yn crwydro ac anturio gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd, mynd i'r parciau a'r traeth i reidio beic a chwarae gyda'i gilydd. Maen nhw'n arbennig o hoff o chwarae pêl-droed a rygbi, nofio, chwarae gemau gyda ffrindiau wyneb yn wyneb ac ar-lein, mynd i fannau hwyliog fel canolfannau trampolinio, gofalu am neu dreulio amser gydag anifeiliaid, bod allan ym myd natur a darganfod llefydd newydd. Ond mae'n rhaid i ni nodi hefyd eu bod nhw'n mwynhau ystod eang o ddiddordebau a gweithgareddau sy'n amrywio ar draws chwarae creadigol, chwaraeon, chwarae cymdeithasol a chwarae yn yr awyr agored: o gic-focsio i grochenwaith, o farchogaeth i deithio dramor neu fynd i'r lleuad hyd yn oed.

Mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn greadigol ac yn digwydd yn yr awyr agored. Mae plant yn chwilio am weithgareddau hwyliog a chymdeithasol dan do, ar-lein a thu allan. Mae hwyliog i'r perwyl hwn yn golygu amrywiaeth o weithgareddau lle gallant fod yn egnïol, yn greadigol, yn gymdeithasol, yn ymchwiliol, yn agos at natur a lle mae cyfle i gyfranogwyr fynegi eu hunain:

**"In my free time I go to the beach & park and I play Dress to Impress with my baddies"**

**"I go in the park river, down to the water. We made a trampoline out of a blue plank of wood."**

Y mannau allweddol sy'n cael eu crybwyll yw'r parciau, y traeth ond hefyd yr afon, canol y dref a'i llefydd bwyta, canolfannau gweithgareddau, y mynydd, a dinasoedd ymhellach i ffwrdd, fel Abertawe a Chaerdydd. Mae canolfannau hamdden a chanolfannau chwarae fel arcedau, parciau dŵr a chanolfannau trampolinio yn boblogaidd, ond felly hefyd ddigwyddiadau cymunedol ac adloniant hwyliog. Mae mynd i ffwrdd ar wyliau a theithio yn cyffroi rhai o'r plant. Yn benodol, ac yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, mae canolfannau trampolinio yn aml yn cael eu hystyried yn boblogaidd am sawl rheswm, **"all type of our favourite places"**.

Mae crwydro a chwilio yn bwysig, gyda rhai yn mynd mor bell â dweud ei fod yn hawl sylfaenol i blant. Nodwyd ffefrynnau eraill hefyd: **"trips to some places they haven't been before, going to a concert, favourite restaurant, hang out together, go to library"**. Mae plant yn awgrymu bod angen ymddiried ynddyn nhw i grwydro ac anturio'n ddiogel ac yn annibynnol, i ddod o hyd i'w hwyl eu hunain a bod yn rhan o gymuned ddiogel, greadigol a chefnogol. Soniodd un plentyn am y cysylltiadau rhwng dychymyg plant, y gallu i gael hwyl, llefydd diogel i dreulio amser yng nghwmni ei gilydd a chymuned. Mae llefydd hwyliog a diogel i grwydro, anturio a bod yn greadigol yn dod â phobl at ei gilydd, ac mae hynny'n sail ac yn meithrin cymuned hapus:

**"...if kids have these really good imaginations, they can start going out with friends more oftenly and that will make our community more better, ...[we can] hang out more and then if we have more people hanging out with each other we can see that our town is more now happy and we all see these sad faces happy faces..."**

Mae neges y plant yn glir: mae cymunedau yn cael eu hadeiladu ar sail mannau diogel, hygyrch a dychmygus lle maen nhw'n gallu cysylltu â natur a gyda'i gilydd. Rhaid i ni amddiffyn eu hawl i grwydro ac anturio drwy ddylunio tref sy'n ymddiried yn ei phobl ifanc. Pan fyddwn ni'n buddsoddi yn nychymyg plant, mae'n fwy na dim ond ariannu chwarae; rydyn ni'n creu cymuned fwy cysylltiedig a llai ynysig.

Mae'r plant yn gallu nodi bod nodweddion naturiol Port Talbot, fel y traeth, y mynyddoedd a'r parciau lleol, yn rhannau allweddol o'u cymuned. Er mwyn cefnogi'r genhedlaeth hon, mae'n rhaid i ni symud tuag at ymddiried yn eu hannibyniaeth drwy greu mannau diogel sy'n caniatáu i blant grwydro ac anturio yn eu cymuned leol ar eu telerau eu hunain. Yn hytrach na gosod meysydd chwarae safonol, mae angen i ni flaenoriaethu mannau chwarae sydd wedi'u cydgynllunio.



## Beth mae plant yn ei werthfawrogi

Mae plant wrth eu bodd â Phort Talbot fel eu 'cartref'; dyma lle mae eu ffrindiau a'u teuluoedd, dyma lle maen nhw'n gallu treulio amser gyda'i gilydd, gan fynd i'r traeth a'r parciau, lle maen nhw'n agos at natur neu'n gwneud pethau hwyliog, ystyrlon gyda'u hanwyliaid e.e. **"I like watching the sunset with mam".**

Mae llawer yn ystyried natur gyfeillgar pobl y dref yn rhan hanfodol o'r hyn sy'n gwneud Port Talbot yn lle arbennig. Mae plant o'r farn bod cysylltiadau clos y gymuned yn dylanwadu ar bopeth:

**"I think won't leave because all my family are here and my friends are here but if they ever leave I would leave to go with them."**

Mae plant yn gweld ymdeimlad cryf o gymuned ym Mhort Talbot, gan dynnu sylw at y cysylltiadau rhwng teuluoedd a ffrindiau sy'n parhau hyd heddiw:

**"My mam and my friend['s] mam was friends before we were friends... we have been friends for 10 years."**

Mae mannau gwyrdd yn hynod o bwysig. Mae parciau a mannau gwyrdd yn llefydd i chwarae, i fod yn gymdeithasol, yn llefydd i'w darganfod a hefyd yn fannau sy'n cynnal bywyd gwyllt, anifeiliaid a'r gymuned ehangach. Mae'r plant yn poeni am natur leol, yn enwedig anifeiliaid, boed yn greaduriaid gwyllt neu'n anifeiliaid anwes. Maen nhw hefyd yn mwynhau gwerth canol y dref gyda'i lefydd bwyta, siopau melysion a'i amrywiaeth eang o wahanol fwydydd, lle maen nhw'n gallu cael hwyl gyda ffrindiau a theulu. Maen nhw hefyd wrth eu bodd â llefydd hwyliog ymhellach i ffwrdd fel canolfannau bywyd gwyllt a chanolfannau trampolinio. Maen nhw'n falch o amgylchedd y dref a'i chymuned. Mae rhai plant eisiau i bobl weld y tu hwnt i'r ystrydebau am Bort Talbot, a dydyn nhw ddim yn hoffi pan fydd pobl yn cwyno am y dref. Yn wir, mae rhai yn mynd yn bellach fyth: **"Port Talbot should be the capital of Wales.".**

## Pryderon a heriau

Mae plant yn poeni am gyflwr eu hamgylchedd, gan sôn yn aml am lygredd a sbwriel a'r niwed maen nhw'n ei achosi i bobl ac anifeiliaid. Maen nhw'n poeni am eu diogelwch eu hunain, diogelwch eu ffrindiau a lles anifeiliaid anwes a chreaduriaid gwyllt yn sgil llygredd, difrod amgylcheddol ac ymddygiad oedolion.

Mae'r niwed amgylcheddol hwn yn anfon neges ddyfnach i blant hefyd. Mae'n fwy na dim ond y difrod sy'n digwydd yn sgil cam-drin diofal o'r amgylchedd; mae sbwriel a llygredd hefyd yn arwydd o ddiffyg balchder a diffyg gofal gan oedolion am fywydau'r plant. Er enghraifft, soniodd rhai o'r plant am bobl feddw yn dechrau ymladd a gadael gwydr wedi torri ar y llawr, a hwnnw'n niweidio plant ac anifeiliaid. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch diogelwch ac ymddygiad oedolion a nodwyd cam-drin, ymladd a hyd yn oed herwgipio – er bod y rhain yn aml yn cael eu hystyried fel pethau sy'n digwydd mewn llefydd eraill, nid yma.

Mae'r plant yn bryderus am fwy na dim ond yr amgylchedd lleol ac ymddygiadau oedolion; maen nhw hefyd yn ystyried Port Talbot fel rhywle sy'n destun heriau technolegol ac amgylcheddol byd-eang:

**"People will die, wildlife will die."**

Maen nhw hefyd yn pryderu bod y gwasanaeth iechyd i bobl ac anifeiliaid anwes o dan bwysau:

**"They could get rushed in and no one's there coz it's so busy, we need to get more people in."**

Mae plant eisiau llefydd diogel a hwyliog i chwarae ynddyn nhw, a mwy i'w wneud yn y dref neu'n agos at Bort Talbot – maen nhw eisiau i lefydd difyr fel canolfannau trampolinio fod yn agosach ac yn haws i'w cyrraedd. Maen nhw'n caru'r traeth, yn enwedig y morfil, ond o'r farn y gellid cael llefydd chwarae mwy dymunol, modern a chyffrous mewn mannau eraill. Er bod llawer o'r plant o fewn cyrraedd hawdd i'r parc a'r traeth, maen nhw eisiau parciau a mannau chwarae mwy, yn enwedig ar gyfer plant hŷn, a chyfleusterau tebyg i glybiau ieuenctid, canolfannau ffydd a chanolfannau cymunedol.

Wrth drafod yr ysgol, mae rhai plant yn sôn am bynciau nad ydyn nhw'n eu mwynhau, bod yr ysgol yn ddiflas ac yn hir. Ar y llaw arall, mae plant yn dweud eu bod nhw'n mwynhau'r ysgol oherwydd eu bod nhw'n gweld eu ffrindiau yno, ac eraill yn eiddgar wrth drafod y gweithgareddau a'r hyn maen nhw'n ei ddysgu yn yr ysgol. Roedd dwy o'r ysgolion a oedd yn rhan o'r prosiect ynghlwm wrth arolwg HAPPEN hefyd. Darlun cymysg a gafwyd, gydag un ysgol yn adrodd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran cymuned yr ysgol (88% yn teimlo'n rhan o gymuned yr ysgol), cymhwysedd (84% yn dweud eu bod nhw'n teimlo eu bod yn gwneud yn dda) a mwynhad o'r ysgol (70%), a'r llall yn adrodd yn is na'r cyfartaledd (68%, 73% a 45% yn y drefn honno). Mae hyn yn dystiolaeth bellach o brofiadau amrywiol y plant o'r ysgol a phwysigrwydd cynnwys plant mewn materion sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymuned.

Mae rhywfaint o bryder am yr economi: y dylai pethau gostio llai, bod yna lawer o siopau wedi cau ac adeiladau gwag. Mae rhai yn nodi'r posibilrwydd y bydd llai o swyddi yn y dyfodol, naill ai y bydd robotiaid ac AI yn cymryd y swyddi neu y byddan nhw eisiau neu angen symud i ffwrdd er mwyn gallu camu ymlaen yn y byd.

Mae rhai'n gobeithio am fwy o degwch, na fydd pethau'n mynd o chwith i Bort Talbot unwaith eto. Maen nhw'n teimlo, o gael mwy o lefydd i chwarae a threulio amser yng nghwmni ffrindiau, y bydd y gymuned yn hapusach ac yn fwy cysylltiedig.

Mae eu pryderon, yn amrywio o beryglon uniongyrchol sbwriel a gwydr wedi torri i bryderon byd-eang am AI a newid hinsawdd, yn amlygu cenhedlaeth sy'n teimlo'n fregus ond sy'n parhau yn obeithiol. Dydyn nhw ddim yn gofyn am addewidion mawreddog, dim ond am fannau diogel, glân a modern lle y gallan nhw fod yn blant a dal ati i fwynhau eu taith i fod yn oedolion.

# Y DYFODOL: SYNIADAU PLANT AR GYFER GWELLA PORT TALBOT

Mae plant yn teimlo bod angen glanhau a gofalu am yr afonydd, y traeth, y parciau a'r dref er budd pobl a'r blaned. Er bod rhai o'r pethau maen nhw eisiau eu gweld yn newid y tu hwnt i'n rheolaeth ni – megis y llanw, y tywydd, ac achosion o anifeiliaid yn cael eu lladd ar y ffyrdd – maen nhw ar y cyfan eisiau gweld safleoedd i blant, natur a'r gymuned yn derbyn gofal:

**"Don't drop litter, make Port Talbot glitter."**

Mae llawer o'r plant eisiau chwarae rhan weithgar a chefnogi eu cymuned eu hunain a helpu eraill. Maen nhw'n sôn am lanhau ardaloedd fel y traeth, y dref, yr afon a'r nentydd a'u gwneud yn llefydd gwell i fywyd gwyllt fyw ac i'w ffrindiau grwydro a chwarae.

Mae ganddyn nhw syniadau am ddyfodol y gwaith dur fel rhywle iachach a glanach:



**“I wish the steelworks could be better, more tidy and clean.”**

Mae’n werth nodi bod diffyg ymwybyddiaeth am y prosiect arc trydan a’r mentrau ‘dur gwyrdd’ sy’n cael eu harloesi ar hyn o bryd. Gallai hyn fod yn rhywbeth y dylai sefydliadau, fel TATA Steel a chontractwyr ategol yng ngweithrediadau gwaith dur Port Talbot, ei gofleidio i ddenu gweithwyr y dyfodol. Yn wir, byddai targedu mwy o’r cyhoeddusrwydd i fentrau gwyrdd tuag at blant yn lleddfu’r pryderon presennol am eu hamgylchedd a dyfodol y dref yn sgil yr argyfwng hinsawdd.

Mae ganddyn nhw syniadau creadigol ar gyfer digwyddiadau a phartïon, harddu’r dref gyda chelf, creu mannau hwyliog i blant o bob oed, a beth i’w wneud gydag adeiladau gwag a mannau gwyrdd sydd wedi eu hesgeuluso. Maen nhw eisiau i’r dref fod yn llawn gweithgarwch bywiog, a llefydd i fwyta, siopa a mwynhau.

Maen nhw hefyd eisiau gallu mynd i ganolfannau gweithgareddau, fel trampolinio a chwarae meddal, yn agosach at eu cartrefi, yn eu hardal leol eu hunain. Er eu bod yn ddiolchgar am barciau lleol newydd, roedden nhw’n teimlo bod angen eu hehangu a chyflwyno mwy o bethau i blant hŷn eu gwneud, fel cyfleusterau sglefrio a beicio – mannau i’w perchnogi gyda’i gilydd.

O ran dyfodol Port Talbot, mae dychymyg byw plant yn cynnwys syniadau dyfodolaidd fel robotiaid, ceir sy’n hedfan ac estroniaid o’r gofod. Maen nhw’n chwilfrydig am ddyfeisiadau newydd posibl fel campau newydd, teithio drwy amser i’r dyfodol ac i’r lleuad. Bydd pob math o hwyl a phartïon (yn y gwaith dur gyda DJ Alien!) ym Mhort Talbot y dyfodol.

Maen nhw’n ymwybodol o fygythiadau amgylcheddol a geowleidyddol, bygythiad llygredd sy’n lladd ac yn niweidio bywyd gwyllt a phobl, ofnau am drydydd rhyfel byd a chwalfa economaidd, a’r byd yn ffrwydro. Mae rhai’n sôn am AI a robotiaid yn gwneud y gwaith drostyn nhw yn y dyfodol tra’u bod nhw’n ymlacio, ond mae eraill yn ymwybodol y gallai AI olygu mwy o bethau awtomatig. Mae yna deimlad y bydd tai, siopau, bwytai ac adeiladau gwahanol, ac y bydd safle’r gwaith dur yn cael ei gau a’i lanhau.

Mae ganddyn nhw ddiddordeb mewn economi yn y dyfodol lle bydd pethau’n rhatach, a’u bod nhw’n gallu blaenoriaethu eu gwariant. Mewn un grŵp, byddai’r holl blant heblaw un yn rhoi arian i ffrindiau, teulu, elusen, pobl ddigartref ac anifeiliaid sâl. Dewisodd un plentyn arian yn hytrach na theulu, ac arweiniodd hyn at drafodaeth chwareus a ffraeth. Fel mae’n digwydd, dywedodd y plentyn dan sylw y byddai’n gwario’r arian ar ei deulu ac ar anturiaethau gyda ffrindiau.

Mae gobaith am Bort Talbot decach ac y gall y dref ffynnu. Mae plant o’r farn bod gan ddychymyg a chwarae, eu hamgylchedd, eu cymuned, eu lles a gweddill byd natur i gyd rôl i wneud eu hardal yn well.

**Dyheadau plant**

Mae gan blant yma ystod eang o syniadau gwahanol am yr hyn maen nhw eisiau ei wneud yn y dyfodol. Maen nhw'n deisyfu am ddyfodol lle maen nhw'n gallu bod yn greadigol, cymdeithasol, gofalgar, egnïol a llwyddiannus. Mae rhai yn awyddus i adael Port Talbot i deithio a gweithio i ffwrdd, ond maen nhw hefyd yn nodi y byddan nhw'n dod yn ôl i ymweld. Mae plant eraill yn dweud na fyddan nhw byth yn gadael, gan mai dyma lle mae eu ffrindiau a'u teulu.

Mae llawer o blant yn breuddwydio am gyffro bywyd fel pêl-droedwyr proffesiynol, eraill am weithio ym meysydd chwaraeon a ffasiwn. Mae eraill yn ystyried proffesiynau gofalgar neu greadigol. Mae dyheadau yn aml yn gymdeithasol eu naws neu'n cael eu dylanwadu gan deulu, e.e. creu cynnwys i'r cyfryngau cymdeithasol, neu yn achos un plentyn, pensaernïaeth:

**"I want to be an arcutect because my grampa is."**




Nododd cyfanswm o 60 o blant un ysgol gynradd beth fyddai eu swyddi delfrydol fel oedolion, gan grybwyll rolau amrywiol ac arbenigol fel cerddwr cŵn, artist digidol, perchennog fferm, dylunydd ffasiwn, saer coed ac ati, yn ogystal â'r dewisiadau poblogaidd disgwyliedig fel pêl-droediwr. Soniwyd am rai rolau diddorol a gwahanol hefyd, gan gynnwys artist, anturiaethwr, palaeontolegydd a chysgwr proffesiynol, gydag un yn fodlon ar fod yn briod. Maen nhw'n aml yn siarad am grwydro a theithio yn y dyfodol i weld llefydd newydd fel Ffrainc, Japan, Korea, Sbaen a'r Unol Daleithiau, i roi cynnig ar brofiadau newydd.

Mae rhai o'r farn bod prifysgol yn bwysig er mwyn astudio ystod o sgiliau a phynciau, i gael cyfleoedd, meithrin sgiliau ac ennill mwy o arian, ac mae astudio ei hun yn diddori rhai, a dysgu mwy am bynciau fel mathemateg, celf, y Gymraeg a 'hen hanes'. Mae'r dyniaethau, y celfyddydau a phynciau STEM o ddiddordeb i'r plant, ond mae peidio â mynd ymlaen i addysg uwch yn apelio hefyd. Does dim diddordeb mewn prifysgol gan rai, gydag eraill yn dweud na fydd eu ffrindiau yn symud i addysg uwch gan nad oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn gweithio.


Heblaw am un plentyn, a oedd yn ystyried busnes toi, doedd dim llawer o ddiddordeb yn y crefftau. Prin oedd y diddordeb ym maes diwydiant chwaith, heblaw am un a oedd â diddordeb mewn bod yn weithiwr dur. Nodwyd diddordeb mewn rhai rolau cyfoes datblygol wrth i'r economi ddatblygu, yn eu plith artistiaid digidol, crewyr cynnwys neu grewyr YouTube. Fodd bynnag, nid oes un syniad penodol o'r hyn mae'n ei olygu i fod yn grëwr. Yn bennaf, mae'n ymddangos bod syniadau'r plant am eu rolau yn y dyfodol yn gysylltiedig â'u bywyd cyfoes, yr hyn y mae'r bobl o'u cwmpas yn ei wneud a'r hyn sy'n cael ei gyflwyno iddyn nhw yn y cartref ac yn yr ysgol.

Ar y naill law, mae hyn yn dangos dyfnder eu cysylltiad â Phort Talbot fel cymuned a faint maen nhw'n ei feddwl o'i gilydd, o'r amgylchedd ac o natur y dref a'r ardal. Ar y llaw arall, gallai'r dyheadau hyn nodi meysydd sy'n ddiffygiol neu sut y mae cyfleoedd lleol yn cyfyngu ar orwelion ar hyn o bryd: gweithio yn Morrisons, yn y gwaith dur ac ati. Mae'n bwysig i ni feithrin dyheadau plant a phobl ifanc yn y dref i gefnogi eu lles a'u cyfraniadau i economïau amrywiol.

O ystyried pwysigrwydd pontio gwyrdd i Bort Talbot, mae angen i fyd addysg a hyfforddiant feddwl yn ddychmygus am agweddau ar y dyfodol a'r paratoadau ar ei gyfer. Mae'n ddifyr nodi nad oes fawr o ddiddordeb mewn peirianneg mewn tref sy'n adnabyddus am ei diwydiant yn y gorffennol ac a allai fod eto yn y dyfodol. Ar gyfer rôl dylunydd gemau, gwelwyd bod angen i chi astudio cyfrifiadureg, yn hytrach na phwnc creadigol neu'r dyniaethau, neu ddilyn llwybr drwy'r diwydiannau creadigol. Ochr yn ochr â'r enghreifftiau hyn, mae'r swyddi a'r rolau a drafodwyd uchod yn dangos yr angen i feddwl yn ehangach am gyflwyno dyheadau'r dyfodol yn yr ysgol ac yn y cartref. Rydyn ni'n annog y rhai sy'n siarad â phlant i ehangu'r ystod o'r hyn sy'n bosibl ac yn gyfoes.





Mae hefyd yn bwysig nodi sut mae'r plant eisiau ymdeimlad o alluogedd a chreadigrwydd a bod yn rhan o'r ystyriaethau am eu dyfodol. Er enghraifft, mae rhai plant yn mynegi awydd i archwilio a chadw'u gorwelion yn hyblyg, gan ddewis swyddi ar sail ffactorau cymhleth yn y dyfodol; ymateb un i'r cwestiwn am swydd ddelfrydol oedd "it depends" . Maen nhw eisiau defnyddio eu dychymyg eu hunain a mynd ati'n annibynnol i chwilio am ddyfodol newydd disglair. Wedi'r cyfan, mae'n bwysig nad ydyn ni'n anghofio bod gan blant ddychymyg a chwilfrydedd a balchder bro, a'u bod nhw'n berffaith abl i ehangu eu gorwelion a meddwl am yr hyn sy'n bosibl iddyn nhw. Mae angen i oedolion gefnogi'r feddylfryd rydd hon er mwyn sicrhau nad yw'r hen hanes o fygu uchelgais yn parhau.

# BETH MAE HYN YN EI OLYGU I...

**FYsgolion...**

Mae ysgolion hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth ddangos i blant bod eu breuddwydion yn ddilys. Gallai fod yn bosibl cyflwyno ystod fwy cyfredol o ddyheadau a chysylltu'r rhain yn greadigol â llwybrau gyrfa cyfoes posibl mewn ffordd gadarn a chyffrous. Un enghraifft fyddai cysylltu disgyblion â diwydiant lleol a phartneriaid creadigol i ddangos y gall cynnydd a llwyddiant ddigwydd yma ym Mhort Talbot. Mae nodau'r plant yn awgrymu rhywfaint o anghysondeb rhwng yr hyn maen nhw'n credu sy'n bosibl iddyn nhw ei wneud a'r hyn sy'n cael ei gynnig iddyn nhw fel llwybrau. Gallai diweddaru'r canllawiau ddatgyfrinio dyfodol cyffrous posibl mewn economi sy'n newid a rhoi mwy o reolaeth i bobl ifanc dros eu dyfodol.

Mae modd i ysgolion weithredu fel eiriolwyr dros deithio llesol diogel a chwarae cymunedol. Drwy gefnogi awydd plant i grwydro a chwilio, gall ysgolion helpu i feithrin yr hyder a'r annibyniaeth sydd eu hangen ar ddisgyblion i ffynnu y tu allan i'r ystafell ddosbarth hefyd. Mae defnyddio adnoddau fel arolwg HAPPEN yn caniatáu i ysgolion symud y tu hwnt i fetrigau academaidd a mynd i'r afael â phrofiadau byw penodol eu disgyblion, gan sicrhau bod cymorth iechyd meddwl yn cael ei deilwra i ddymuniadau ac anghenion eu disgyblion.

**Yr awdurdod lleol...**

Siaradodd y plant yn helaeth am barciau a chyfleusterau lleol. Roedd eu balchder yn eu bro yn amlwg, ond mynegwyd bod lle i wella hefyd. Er enghraifft, roedd safleoedd treftadaeth – fel bandstand Parc Coffa Tai-bach – yn cael eu hystyried yn hynod bwysig i'r gymuned, ond bod rhoi ffens o amgylch y safle yn gyfystyr â gwastraff adnodd. Roedd gan un ysgol weledigaeth ar gyfer defnyddio'r bandstand ar gyfer picnics, cerddoriaeth a chwarae gyda ffrindiau. Nododd plant hefyd eu bod yn adeiladu rampiau beiciau gyda'u ffrindiau yn rheolaidd, ond eu bod nhw'n cael eu chwalu wrth i waith cynnal a chadw ddigwydd yn y parc. Mae awgrym yma o'r angen am ymagwedd integredig at ddyfodol llefydd. Popeth sy'n gwneud rhywle yn lle sy'n werth treulio amser yno: mae treftadaeth, bioamrywiaeth, diogelwch, harddwch, dysgu, cymuned a hwyl i gyd yn bosibl os yw lle yn derbyn gofal ac os yw plant a phobl ifanc yn cyfranogi'n weithredol yn y gwaith o gyd-greu'r mannau hyn.

I awdurdodau lleol, mae lleisiau plant yn alwad uniongyrchol i weithredu cynllunio a pholisïau sy'n ystyried plant. Rhaid ail-fframio glendid amgylcheddol fel blaenoriaeth o ran diogelwch, lle mae mynd i'r afael â sbwriel a meddwdod cyhoeddus yn dod yn adnodd ar gyfer adfer symudedd annibynnol plant a'u gallu i deithio'n ddiogel drwy'r dref. Mae hyn yn golygu trin plant fel rhanddeiliaid allweddol mewn prosiectau adfywio (megis y trawsnewid gwyrdd, ailddatblygu tanffordd yr M4 neu'r defnydd y gellir ei wneud o'r adeiladau gwag yng nghanol y dref) gan sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu gwreiddio mewn prosesau cynllunio ffurfiol. Drwy symud i ffwrdd o ymgynghoriadau untro i gyd-gynhyrchu go iawn, mae modd i awdurdodau lleol droi'r mewnwelediadau hyn yn safon ar gyfer creu lleoedd yn y dyfodol sy'n gwerthfawrogi diogelwch, dychymyg a balchder dinesig eu trigolion ieuengaf. Bydd pwyso ar y sgiliau a'r creadigrwydd sydd wedi cael eu dangos gan bobl ifanc drwy gydol y prosiect hwn yn sicrhau na fydd gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain yn cael ei gyfaddawdu.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus...**

Cynigiodd y 300 o blant a gyfranogodd yn ein prosiect fewnwelediadau hanfodol ar gyfer yr Asesiadau Lles arfaethedig. Cwmpaswyd pynciau sy'n uniongyrchol berthnasol i les cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eu tref. Wrth wneud hynny, maen nhw wedi dangos pwysigrwydd gwrando ar eu lleisiau wrth i bennod nesaf stori Port Talbot gael ei hysgrifennu. Isod, rydyn ni'n tynnu sylw at rai pwyntiau hanfodol i'w hystyried:

Cymdeithasol: Roedd y plant yn ganmoliaethus iawn am y parciau, y traethau a'r mannau gwyrdd lleol. Fodd bynnag, roedden nhw hefyd yn tynnu sylw at ddiffyg gweithgareddau dan do i blant o bob oedran. Roedd colli Bizzi Bees, canolfan chwarae meddal ar Ffordd yr Orsaf gynt, yn cael ei deimlo i'r byw, ac roedd plant yn galw am fwy o lefydd yn eu hardal leol i blant a phobl ifanc fwynhau chwarae'n ddiogel gyda'u ffrindiau – gyda llawer yn nodi bod angen teithio allan o Gastell-nedd Port Talbot er mwyn gwneud hynny bellach. Yn ogystal, mynegodd y plant awydd i gael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio ardaloedd ar gyfer plant a phobl ifanc – maen nhw'n mwynhau adeiladu rampiau beic a sgwter gyda'u ffrindiau, ond mae'r rhain yn cael eu dinistrio'n rheolaidd wrth glirio'r parciau. Byddai creu'r gofodau y mae plant eisiau eu gweld yn gwella lles cymdeithasol.

Economaidd: Mae'r plant wedi mynegi amrywiaeth eang o uchelgeisiau o ran gyrfa. Rydyn ni'n annog y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus i gymryd sylw o bopeth, o'r palaeontolegydd a'r dylunydd ffasiwn i gyfleoedd lleol sefydledig, fel gweithiwr dur a gweithiwr yn Morrisons. Mae angen ehangu ac amrywio'r cyngor a'r gefnogaeth sy'n cael eu cynnig i bobl ifanc o Bort Talbot; mae angen hefyd hybu ymwybyddiaeth o sgiliau gwyrdd a'r llwybrau sy'n arwain atyn nhw.

Amgylcheddol: Mae'r plant wedi mynegi pryder mawr am brofi heriau amgylcheddol yn lleol. Dau o'u prif bryderon oedd atal sbwriel a llygredd yn mynd i'r môr. Un awgrym, a gymeradwywyd gan bob un o'r ysgolion, oedd mwy o bosteri a gosod mwy o finiau sbwriel ledled y dref. Roedden nhw'n teimlo y byddai'r ddau opsiwn yn cael effaith ataliol ac yn gwella'r amgylchedd lleol.

Diwylliannol: Roedd y plant yn teimlo cysylltiadau dwfn â safleoedd treftadaeth lleol – gan gynnwys bandstand Tai-bach a Morfil Traeth Aberafan. Er bod y morfil yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ar gyfer chwarae, nodwyd y bandstand fel lleoliad sydd angen ei adfywio er mwyn caniatáu iddyn nhw ddefnyddio'r gofod yn yr un ffordd â'r cenedlaethau hŷn. Ar ben hynny, wrth werthfawrogi ein treftadaeth ddiwylliannol drwy'r enwau mawr, fel Richard Burton, soniodd llawer o'r plant am bwysigrwydd gweithgareddau creadigol i'w lles presennol – roedd yr enghreifftiau'n cynnwys chwarae gemau dylunio gyda'u ffrindiau, mynd i glwb drama a chelf a chrefft – byddai unrhyw gefnogaeth i'r gweithgareddau hyn yn sicr yn cyfoethogi lles diwylliannol y genhedlaeth ifanc.

**Treftadaeth a chreu lleoedd...**

Yn y pen draw, mae creu lleoedd llwyddiannus ym Mhort Talbot yn gofyn am ymrwymiad i gof sy'n pontio'r cenedlaethau. Mae ein canfyddiadau yn nodi pwysigrwydd defnyddio tirnodau cyffredin fel pont i sicrhau bod stori esblygol Port Talbot yn berthnasol i bawb sy'n byw yn y dref – gan gynnwys y rhai a fydd yma hiraf. Drwy gofnodi safbwyntiau plant ochr yn ochr â hanesion llafar oedolion, rydyn ni'n creu dull mwy cynhwysol sy'n anrhydeddu gwreiddiau'r dref gan gofleidio gwerthoedd modern fel iechyd amgylcheddol a chydraddoldeb rhywedd.

Mae'r newid hwn yn cael ei gynrychioli'n fwyaf amlwg ym murluniau M4 y plant; yn hytrach na llinell amser hanesyddol syml, roedd y canfyddiadau yn gofyn am ddyluniad bywiog, llawn dychymyg sy'n adlewyrchu perthynas weithredol y plant â'u tref. Nid rhywbeth disymud yw hunaniaeth ym Mhort Talbot, ond naratif byw y mae plant yn awyddus i'w greu ar y cyd. Yn draddodiadol, mae treftadaeth wedi cael ei fframio o safbwynt oedolion, ond mae'r prosiect hwn yn profi bod plant yn gweithredu fel cyd-grewyr hanfodol sy'n gweld hanes eu tref fel rhan o'u hunaniaeth ehangach, wedi'i gysylltu drwy'r mynyddoedd, yr afonydd, y traethau a mannau cymunedol. Mae'r tirweddau hanesyddol hyn yn creu galwad i weithredu sy'n pontio'r cenedlaethau – i barchu a gwarchod treftadaeth leol.

# CASGLIAD

Mae The Steeltown Storybook: Children's Chapter yn dangos nad oes modd creu dyfodol Port Talbot yn llwyddiannus heb gyfranogiad gweithredol pobl ifanc y dref. Drwy wrando ar blant, rydyn ni wedi datgelu gweledigaeth o'r dref sy'n gwerthfawrogi iechyd, cynhwysiant, cydraddoldeb a'r hawl sylfaenol i grwydro ac anturio.

Mae'r canfyddiadau hyn yn datgelu bod y cysylltiad rhwng lle a chymuned yn cael ei lunio ym myd dychmygus plant; pan fyddwn ni'n darparu mannau diogel, creadigol a thaclus. Nid dim ond gwella seilwaith ydyn ni; rydyn ni'n meithrin ymdeimlad o berthyn a balchder a fydd yn parhau am oes.
Yn y pen draw, mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at ymdrechion adfywio a threftadaeth ehangach drwy bontio bylchau. Drwy gofnodi dyheadau pobl ifanc heddiw ochr yn ochr ag atgofion o'r gorffennol, rydyn ni'n sicrhau bod trawsnewid Port Talbot i ddyfodol gwyrddach yn fwy na dim ond rhywbeth sy'n digwydd i'r gymuned; mae'n daith gydweithredol sy'n anrhydeddu gorffennol hanesyddol y dref tra'n grymuso'r genhedlaeth nesaf i arwain y ffordd.

Dyma gloi gyda gwŷs i bob lluniwr polisi, addysgwr ac arweinydd cymunedol:

Peidiwch â darllen yr adroddiad hwn a'i roi o'r neilltu mewn cwpwrdd ffeilio fel casgliad o brosiectau. Mae angen i chi ei ddefnyddio fel sbardun ar gyfer newid. Pan fyddwch chi'n cynllunio datblygiad newydd, mae angen i chi ofyn sut mae'n ystyried hawl plentyn i grwydro ac anturio. Pan fyddwch chi'n trafod dyfodol y gwaith dur a'r economi leol, mae angen i chi gynnwys y plant a fydd yn byw gyda'r canlyniadau amgylcheddol ac economaidd. Pan fyddwch chi'n dylunio ein mannau cyhoeddus, mae angen i chi roi'r gair olaf i'r plant sydd eisoes wedi dangos bod ganddyn nhw'r dychymyg i gynnig a chanfod atebion.

# GADEWCH I NI WNEUD PENDERFYNIADAU GYDA PHLANT A PHOBL IFANC, YN HYTRACH NA DIM OND AR EU RHAN.






Am fwy o wybodaeth am Steeltown Storybook: Children's Chapter, cysylltwch:

Emily Adams
Local Challenges Research Office
Swansea University
emily.adams@swansea.ac.uk

Dr Michaela James
Population Data Science
Swansea University
m.l.james@swansea.ac.uk

Arts and Humanities Research Council

Prifysgol Abertawe
Swansea University